

Cod y modwl: ECAD6018

**Teitl yr Aseiniad: Dogfennwch eich
dealltwriaeth o rôl y Cydlynnydd Anghenion
Dysgu Ychwanegol (Cydlynnydd ADY)**

Enw'r myfyriwr: Catrin Williams

Rhif myfyriwr: 2204091

**BA (Anrh) Addysg Gynradd gyda Statws Athro
Cymwysedig**

AI Acknowledgement

I confirm that I have not used any AI tools in the research and creation of this assignment.

I confirm that I have not presented any AI generated materials as my own work.

I confirm that I have copies of my drafts, notes, and other resources I used, which I may be asked to provide in evidence.

Targedau

Gwneud fwy o ddefnydd o lyfrau ac erthyglau sydd ar gael yn y llyfrgell, defnyddio adroddiadau ESTYN i gwella dealltwriaeth.	Fwy o ddarllen ehangach, wedi ddefnyddio adroddiadau ESTYN	Gwelir rhestr cyfeirnod
Gwella iaith ysgrifenedig, sesiynau cymraeg i wella strwythur brawddeg	Wedi dilyn strwythur aseiniad	Yr aseiniad isod
Mwy o fanylder yn y drafodaeth yn gyffredinol, esbonio beth a sut.	Wedi ceisio gwerthuso trwy'r aseiniad yn ymateb gyda pethau positif a negyddol	Crynodeb yr aseiniad

Cyflwyniad:

Bwriedir yn yr aseiniad hon i drafod rol y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), a dangos fy nealltwriaeth o rôl y swydd a thrafod yr elfen ymarferol a'r cyfyngiadau. Mae'r Cydlynnydd ADY yn chwarae rhan hanfodol wrth nodi a chefnogi dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Maent yn cydlynu datblygiad a gweithrediad Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU), yn sicrhau bod cefnogaeth briodol yn ei le, ac yn monitro ei effeithiolrwydd. Mae'r Cydlynnydd ADY yn gweithio'n agos gyda staff, teuluoedd, ac asiantaethau allanol i hyrwyddo arferion cynhwysol, darparu hyfforddiant i staff ysgol, a chynghori arweinyddiaeth ar ddarpariaeth ADY strategol. Maent hefyd yn sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â Chod ADY Cymru a deddfwriaeth berthnasol. Yng Nghymru mae yna un berson sydd wedi ei penodi yn yr ysgol i gymryd y cyfrifoldeb o'r darpariaeth dysgyblion ADY (Llywodraeth Cymru, 2019), gall y person hwn gael mwy nag un swydd yn yr ysgol, er enghraifft dal i addysgu. Mae angen nifer o sgiliau yn y rôl hon i allu gwneud yn effeithiol, mae'r ffocws mwyaf ar y plentyn ag ADY tra hefyd yn rheoli staff a chysylltu â rhieni (Cyngor Abertawe, 2023). Mae'r swydd statudol hon o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Llywodraeth Cymru, 2022), ac mae'n orfodol i bob ysgol gynradd a chynradd a gynhelir, gan gynnwys meithrinfeydd, colegau, a unedau atgyfeirio disgyblion (Legislation.gov.uk, 2018).

Darllenwyd o Cyngor Sir Penfro (2021) rôl y fframwaith addysgol, sef sicrhau bod myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cefnogi'n gyfannol a chynhwysol, a thrwy hynny eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial o fewn cymuned yr ysgol. Fel y soniwyd uchod mae rôl CADY yn cynnwys amrywiaeth o fedrau a chyfrifoldebau, maent yn hyrwyddo arferion cynhwysol ar draws yr ysgol. Gallant gynghori a hyfforddi staff ar ddulliau addysgu gwahaniaethol i ddarparu ar gyfer anghenion dysgu amrywiol, a thrwy hynny wella'r profiad dysgu cyffredinol i bob myfyriwr. Ymhellach, mae Cydlynwyr ADY yn goruchwyllo polisi ADY yr ysgol, gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd â deddfwriaeth gyfredol ac arferion gorau (Llywodraeth Cymru, 2024).



(HWB,2024)

Trosolwg Damcaniaethol:

Gan hefyd ystyr y "Deddf Cydraddoldeb 2010" mae hyn hefyd yn cynnwys hawliau amrywiaeth a chynhwysiant i ddisgyblion o fewn y Dosbarth (Llywodraeth Cymru,2022),

sydd hefyd yn cyd-fynd â chwricwlwm i Gymru gyda chreu cwricwlwm lle mae pawb yn gwneud cynnydd (Llywodraeth Cymru,2021).Rhywbeth arall yr wyf wedi gorfod ei ystyried wrth ymchwilio i Gydlynnydd ADY yw'r bartneriaeth rhwng Cydlynwyr ADY a'r gwasanaethau cymdeithasol sy'n hanfodol i ddarparu cymorth cynhwysfawr i blant a phobl ifanc ag ADY. Trwy gydweithio effeithiol, mae'r gweithwyr proffesiynol hyn yn sicrhau bod darpariaethau addysgol yn cael eu teilwra i ddiwallu anghenion unigol pob dysgwr, gan feithrin amgylchedd lle gallant ffynnu yn academiaidd ac yn bersonol. Mae deddf gwasanaethau cymdeithasol a llesiant 2014 hefyd yn nodi y dylai Gweinidogion Cymru gyhoeddi datganiad yn amlinellu'r nodau llesiant y mae'n rhaid i unigolion sydd angen gofal a chymorth yn ogystal â gofalcwyr sydd angen cymorth eu cyflawni o fewn adrannau 8-13 (legislation.goc.uk,2014).

Myfyrdodau a Dealltwriaeth Ymarferol:

Yn ystod profiadau personol tra allan ar leoliadau rwyf wedi gweld dau fath o Gydlynnydd ADY, un ar PAP 2 lle maent ond yn addysgu ddwywaith yr wythnos ac yn ystod PAP 3 dim ond bore dydd Gwener y byddai'r athro'n ei gael ar gyfer rôl y Cydlynnydd ADY. Roedd gwaith yr CADY yn gynwys ysgrifennu cynllun datblygu unigol (CDU) disgyblion yn yr ysgol, sydd yn gael ei wneud pob flwyddyn, mae'r CDU yn cael ei monitro dros cyfnod o amser ac yn gallu cael ei newid ar unrhyw adeg (Snap Cymru, 2024). Mae CDU yn hynod bwysig ym myd addysg, mae'n sicrhau cynydd i ddisgyblion ag ADY, gall y datblygiad hwn fod yn dymor byr neu dymor hir ac yn datblygu wrth i amser fynd heibio sydd hefyd yn bwysig i'w ystyried fel Cydlynnydd ADY, gan wneud yn siŵr bod trafodaethau cyson yn digwydd gyda'r athro dosbarth i wneud yn siŵr bod y cynllun yn addas. O siarad â'r ddau athro tra'u bod allan ar leoliad, mae'r ddau wedi cytuno yn y blynyddoedd diwethaf bod llwyth gwaith wedi cynyddu, ynghyd ag adnoddau a hyfforddiant sydd ar gael i gael gwell dealltwriaeth o ADY. O ymgysylltu a chysgodi'r Cydlynwyr ADY yn yr ysgol roedd hefyd yn amlwg pa mor bwysig yw'r sgil cyfathrebu, yn amrywio o

gyfathrebu gydag athrawon i rieni, y cyfathrebu hwn sy'n helpu'r Cydlynnydd ADY i osod y strategaethau mwyaf cywir. Roedd y Cydlynnydd ADY hefyd yn gymorth hollbwysig i'm hathro yn ystod PAP 3 drwy gefnogi drwy rannu strategaethau ac adnoddau ar gyfer disgyblion yn fy

nosbarth. Un enghraifft o hyn oedd bod cwmnïau fel "attention autism" wedi dod i mewn ac yn ymweld â'r athro dosbarth a'r disgybl i weld sut oedden nhw'n dod ymlaen gyda rhai strategaethau roedden nhw wedi'u hawgrymu. Mae "attention autism" hefyd yn cynnal



(Prospect,2022)

hyfforddiant a chymorth i rhieini, gan ystyried cyfarthrebu llwyddiannus (Attention Autism, 2025).

Cyfngiadau a Rhwystrau:

Yn anffodus, mae rhai cyfngiadau a rhwystrau hefyd i rôl y Cydlynnydd ADY, sef yr un cyntaf fel athrawes sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn bersonol, rwyf wedi gweld y rhwystr iaith yn gyfngiad tra'n ystyried yr anawsterau y gallai plentyn fynd drwyddynt wrth ddysgu dwy iaith, pryder sylweddol yw'r anghysondeb yn argaeledd adnoddau ADY cyfrwng Cymraeg. Darllenwyd ar y newyddion (ITV,2023) nid yw rhai awdurdodau lleol wedi sefydlu digon o ddarpariaethau cyfrwng Cymraeg eto, gan arwain at sefyllfaoedd lle caiff disgyblion eu cefnogi yn Saesneg neu lle nad oes cymorth digonol yn gyfan gwbl. Gall y gwahaniaeth hwn arwain at rieni yn dewis symud eu plant o ysgolion cyfrwng Cymraeg i ysgolion cyfrwng Saesneg i chwilio am well cymorth. Rhwystr sydd yn cydfynd gyda iaith yw datblygiad adnoddau a hyfforddiant ADY cyfrwng Cymraeg i staff yn barhaus ond nid yw'n gynhwysfawr eto. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr angen am ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg deg ac mae'n gweithio gydag awdurdodau lleol i wella'r agwedd hon, gan gynnwys datblygu adnoddau dwyieithog a chyfluoedd dysgu proffesiynol (Llywodraeth Cymru, 2024).

Cyfngiad arall ar y rôl yw amser, gall y swydd ddod ag amser cyfyngedig, yn enwedig gan fy mod wedi dweud yn flaenorol bod rhai Cydlynwyr ADY yn addysgu'n llawn amser hefyd. Mae nifer yr anghenion ym mhob ysgol yn amrywio felly yn wahanol ar gyfer pob Cydlynnydd ADY, er bod gan bob Cydlynnydd ADY yr un nod o sicrhau'r hyn sydd orau i'r disgybl. Fel arfer bydd y Cydlynnydd ADY yn cynnal cyfarfodydd gyda rhieni, staff a'r disgyblion i weld a siarad am gynnydd sydd oll yn cynnwys amser, felly mae'n bwysig bod yr ysgolion yn gallu darparu amser allan o'r ystafell ddosbarth ar gyfer y cyfarfodydd hyn. A allai hefyd arwain at gost ychwanegol i'r ysgol, er enghraifft, cael staff cyflenwi i mewn.

Cyswllt â Safonau Addysgu a Datblygiad Proffesiynol:

Yn ystod fy nhair blynedd diwethaf ar y cwrs hwn, rydw i bob amser wedi edrych ar ddatblygu nifer o sgiliau i'w defnyddio yn fy ymarfer, mae'r modiwl hwn wedi helpu i fyfyrio ar y sefyllfaoedd cyfredol mewn addysg ac wedi dyfnhau fy ngwybodaeth am ddeddfwriaethau presennol ar gyfer triniaeth gyfartal i ddisgyblion a staff yn yr ystafell ddosbarth. O'r aseiniad hwn hyd at fy nealltwriaeth i mae nifer o bethau y mae rôl y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn eu helpu, yn eu harwain ac yn eu gwneud ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol mewn ysgolion, mae'n rôl swydd y byddaf yn parhau i ymchwilio iddi wrth i mi ddatblygu fy ngyrfa addysgu. Enghreifftiau isod o rai o'r safonau addysgu rwy'n teimlo y byddant yn helpu i barhau â'm datblygiad proffesiynol o'r modiwl hwn:

- Datblygu technegau newydd
- Darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil
- Dysgu proffesiynol parhaus
- Cynnwys partneriaid mewn dysgu

Llenyddiaeth

Attention Autism (2025). *Attention Autism for Professional – Attention Autism Ltd.* Attention Autism Uk & Ireland . Available at: <https://attentionautism.co.uk/attention-autism-for-professionals/>.

Cyngor Abertawe (2023). *Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) - Abertawe.* Abertawe. Available at: <https://www.abertawe.gov.uk/adyProffesiynolCADY?lang=cy>.

HWB (2024). *View - Hwb.* Gov.wales. <https://hwb.gov.wales/playlists/view/a9f50b9b-f55c-4862-8cc9-5d2c1b7155d0/en/1>.

Legislation.gov.uk (2018). *Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018.* Legislation.gov.uk. <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2018/2/data.html>

legislation.gov.uk (2014). *Social Services and Well-being (Wales) Act 2014.* Legislation.gov.uk. <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/section/1>.

Llywodraeth Cymru (2019). *View - Hwb.* Gov.wales. <https://hwb.gov.wales/playlists/view/a9f50b9b-f55c-4862-8cc9-5d2c1b7155d0/cy/1>

Llywodraeth Cymru (2021). *Cwricwlwm i Gymru: Y Cod Cynnydd | LLYW.CYMRU.* [online] www.llyw.cymru. <https://www.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru-y-cod-cynnydd>.

Llywodraeth Cymru (2022). *Rhaglen trawsnewid y system anghenion dysgu ychwanegol: cwestiynau cyffredin.* <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2023/9/1/1695036377/rhaglen-trawsnewid-y-system-anghenion-dysgu-ychwanegol-cwestiynau-cyffredin.pdf>

Llywodraeth Cymru (2024). *Cynnydd ysgolion, lleoliadau ac awdurdodau lleol o ran cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol: ymateb y llywodraeth [HTML] | LLYW.CYMRU.* LLYW.CYMRU. <https://www.llyw.cymru/cynnydd-ysgolion-lleoliadau-ac-awdurdodau-lleol-o-ran-cefnogi-disgyblion-ag-anghenion-dysgu-html>

Llywodraeth Cymru (2022). *Equality Act 2010.* Legislation.gov.uk. <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/88>.

Llywodraeth Cymru (2024). *ALNCo task and finish group: report to the Minister for Education and Welsh Language [HTML] | GOV.WALES.* www.gov.wales. <https://www.gov.wales/alnco-task-and-finish-group-report-minister-education-and-welsh-language-html>.

News, I. (2023). *Children with additional learning needs 'let down' at Welsh-Medium schools, say campaigners.* ITV News. <https://www.itv.com/news/wales/2023-10-13/calls-for-aln-system-to-change-to-support-children-in-bilingual-schools?>

Pembrokeshire County Council (2021). *Role of ALNCo and Professionals*.
www.pembrokeshire.gov.uk. <https://www.pembrokeshire.gov.uk/parent-partnership-service/role-of-alnco-and-professionals>.

Prospect (2022). *Schools Bill's troubled passage through Parliament should give education sector pause for thought*. Prospect. <https://prospect.org.uk/news/schools-bills-troubled-passage-through-parliament-should-give-the-sector-pause-for-thought>

Snap Cymru (2024). *Individual Development Plans*. Snap Cymru.
<https://www.snapcymru.org/get-support/idps/>.